CYMDEITHAS SENEDDOL Y GYMANWLAD
PWYLLGOR GWEITHREDOL CANGEN SENEDD CYMRU

ADRODDIAD I GANGEN Y SENEDD AM Y CYFNOD
26 Mawrth 2021-20 Tachwedd 2022

Cefndir

Cytunodd Senedd Cymru yn unfrydol ar gynnig a lofnodwyd gan arweinwyr y pedair plaid i wneud cais i gael ei derbyn yn aelod o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad (CPA) ar 7 Gorffennaf 1999. Croesawyd Cymru yn ffurfiol yn aelod o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad yng nghyfarfod Cyffredinol y Gymdeithas yn Trinidad ar 19 Medi 1999.

Strwythur y Gangen

Mae pob un o Aelodau'r Senedd yn aelod awtomatig o Gangen Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad.

Deiliaid Swyddi:

Llywydd: Elin Jones AS
Is-lywydd: David Rees AS
Cadeirydd: Rhun ap Iorwerth AS
Ysgrifennydd: Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd

Ysgrifennydd Dros Dro:
Al Davies, Uwch-reolwr Cysylltiadau Rhyngwladol a Phrotocol

Pwyllgor Gweithredol y Gangen

Rhianon Passmore AS
Alun Davies AS
Natasha Asghar AS
Sam Rowlands AS
Delyth Jewell AS

RHAGAIR Y CADEIRYDD

Mae'r flwyddyn ddiwethaf hon wedi bod yn gyfnod cynhyrchiol i gangen y Senedd o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad.

Mae ein Pwyllgor Gweithredol newydd o'r Gangen, sydd bellach yn cynnwys chwe Aelod a chydbwysedd rhwng y rhywiau am y tro cyntaf, wedi gweithio'n effeithiol ac wedi cynnig deinamig a golwg newydd ar ein gwaith.

Fodd bynnag, fel y caiff ei bwysleisio'n aml, mae *holl* Aelodau'r Senedd yn Aelodau o'n Cangen o'r Gymdeithas. Mae wedi bod yn arbennig o braf i mi, felly, weld nifer o Aelodau newydd y Senedd, yn ogystal â'r rhai nad ydynt wedi ymgysylltu â'r Gymdeithas yn y gorffennol, yn cymryd diddordeb ac yn cymryd rhan yn y cyfleoedd a ddaw yn sgil ein Haelodaeth o'r rhwydwaith hwn.

Er ein bod oll yn ymwybodol nad yw COVID wedi diflannu, mae llwyddiant y rhaglen frechu ledled y byd wedi caniatáu ailddechrau cyfarfodydd wyneb yn wyneb a dychwelyd, bron yn normal, at raglenni'r Gymdeithas. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae hyn wedi cynnwys ein cyfranogiad mewn cynadleddau wyneb yn wyneb ar lefel ranbarthol yng Ngogledd Iwerddon, Ynys Manaw a Gibraltar, yn ogystal ag yn rhyngwladol yng Nghanada a'r Caribî. Rydym hefyd wedi bod yn falch o groesawu dirprwyaethau'n cynrychioli nifer o seneddau'r Gymanwlad, gan gynnwys Awstralia, Pacistan a De Affrica.

Yn y cyfamser, rydym wedi parhau i allu defnyddio llwyfannau rhithwir, a fabwysiadwyd yn ystod y pandemig, i gryfhau ein cyfranogiad ar draws y Gymdeithas. Mae hyn wedi cynnwys cymryd rhan mewn Cyfarfodydd y Pwyllgor Llywio yn ogystal â sesiynau gweminar i fwrw ymlaen â'r agenda ar gyfer gweithgor *Argyfwng Hinsawdd* y Rhanbarth, yn ogystal â rhannu arferion gorau yn y rhwydwaith *Seneddwyr y Gymanwlad ag Anableddau*, gyda Mark Isherwood AS yn Bencampwr ar ran ein Senedd.

Mae 2023 yn argoeli i fod yn flwyddyn yr un mor gyffrous i'n Cangen gyda chynadleddau arfaethedig yn San Steffan a Ghana yn ogystal â'r ffaith ein bod yn croesawu ystod amrywiol o Seneddau'r Gymanwlad; o un o'r deddfwrfeydd lleiaf un yn St Helena i'r mwyaf yng Nghanada. Edrychaf ymlaen at eich diddordeb a'ch ymgysylltiad parhaus yn y rhain a llawer o gyfleoedd eraill y Gymdeithas.

Rhun ap Iorwerth AS.
Cadeirydd Cangen y Senedd o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad.

DETHOLIAD O'R GWEITHGAREDDAU YN YSTOD CYFNOD YR ADRODDIAD:

1. Cymryd rhan mewn Cynadleddau a Seminarau'r Gymdeithas

50fed Cynhadledd Flynyddol BIMR
Belffast, Gogledd Iwerddon
Medi 2021

Cynulliad Gogledd Iwerddon oedd yn trefnu a chroesawu'r Gynhadledd Ranbarthol Flynyddol ym Melffast - gweithgaredd wyneb yn wyneb cyntaf y Gangen yn y Gymdeithas ers y pandemig.

Thema'r gynhadledd oedd *Seneddau wedi'r Pandemig* a chynrychiolwyd y Senedd gan Gadeirydd y Gangen, Rhun ap Iorwerth AS, Is-lywydd y Gangen David Rees AS, Rhianon Passmore AS a Sam Rowlands AS. **Adroddiad**

70ain Seminar San Steffan
Mawrth 2022

Seminar oedd hwn a gynhaliwyd gan CPA UK, ar gyfer aelodau newydd neu a etholwyd yn ddiweddar, ac roedd Sam Rowlands AS a Natasha Asghar AS yn bresennol.
Adroddiad (Senedd)
Adroddiad (CPA)

51fed Cynhadledd Flynyddol BIMR
Ynys Manaw
Mawrth 2022

Roedd y Cadeirydd yn ogystal â Natasha Asghar AS yn bresennol yn y gynhadledd ranbarthol, gyda Rhianon Passmore AS yn bresennol yn rhithwir yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a Chyfarfod Pwyllgor Llywio Seneddwragedd y Gymanwlad, lle y cafodd ei hethol yn Is-Gadeirydd Rhanbarthol Seneddwragedd y Gymanwlad. Thema'r gynhadledd oedd *Craffu sy'n cael Dylanwad.* **Adroddiad**

65ain Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad
Halifax, (NS), Canada, Awst 2022

Sarah Murphy AS a Huw Irranca-Davies AS oedd yn cynrychioli'r Senedd yn y gynhadledd ryngwladol hon o'r Gymdeithas, lle roedd dros 500 o Seneddwyr y Gymanwlad yn bresennol. **Adroddiad**

2. Seneddwragedd y Gymanwlad

Mae Rhianon Passmore AS, Delyth Jewell AS a Natasha Asghar AS wedi cymryd rhan yng nghyfarfodydd Pwyllgor Llywio Seneddwragedd y Gymanwlad y BIMR.

Sioeau Teithiol Seneddwragedd y Gymanwlad yn y DU
Tachwedd 2021

Roedd Natasha Asghar AS yn bresennol yn y Sioe Deithiol hon a oedd yn canolbwyntio ar y mater pwysig o hyfforddiant i fynd i'r afael ag *Aflonyddu ar Seneddwyr Benywaidd drwy Gyfryngau Cymdeithasol*. Mae recordiad o'r sesiwn hon ar gael **yma**

9fed Cynhadledd BIMR Seneddwragedd y Gymanwlad
Gibraltar, Hydref 2022

Cynrychiolwyd y Senedd gan Rhianon Passmore AS, Buffy Williams AS a Heledd Fychan AS yn y gynhadledd hon o Seneddwragedd y Gymanwlad, a gynhaliwyd gan Gangen Gibraltar, a'r thema oedd *Denu a Chadw Seneddwragedd Effeithiol*. **Adroddiad**

3. Seneddwyr y Gymanwlad ag Anableddau

Yn dilyn y sylfaen gadarn a osodwyd gan waith y cyn Is-lywydd Ann Jones AS, roedd y Gangen yn falch bod Mark Isherwood AS wedi ymgymryd â rôl Pencampwr ar ran y Senedd yn Seneddwyr y Gymanwlad ag Anableddau.

Mae ein hymgysylltiad â rhwydwaith Seneddwyr ag Anableddau wedi cynnwys:

- chwarae rhan flaenllaw mewn cyfarfodydd rhanbarthol rhithwir lle darparwyd
hunan-asesiad o'r Senedd fel senedd gynhwysol o ran pobl anabl, yn ogystal â chymryd rhan mewn cyflwyniad rhithwir a gafodd ei arwain gan Senedd yr Alban, yn canolbwyntio ar eu *Cronfa Mynediad i Swydd Etholedig*

Ar 2 Tachwedd 2022 arweiniodd Mark Isherwood AS sesiwn lwyddiannus ar *Gwrando ar bobl ag anableddau, a'u profiad byw o'r rhwystrau rhag mynediad a chynhwysiant*

4. Ymgysylltu â Phobl Ifanc yng Nghymru

11eg Senedd Ieuenctid y Gymanwlad (CYP)
Trinidad a Tobago
Tachwedd 2022

Cydweithiodd y Gangen â thîm Senedd Ieuenctid Cymru er mwyn hwyluso ein cynrychiolaeth yn y gynhadledd hon. Mae cyn Aelodau o'r Senedd Ieuenctid, sef Betsan Angell Roberts a Gwion Rhisiart wedi eu dewis ac maent, ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn, yn Port of Spain, Trinidad yn cynrychioli'r Senedd yn Senedd Ieuenctid y Gymanwlad.

5. Ymweliadau nodedig a gweithgareddau eraill.

Senedd Daleithiol Western Cape - Mai 2022

Arweinydd yr ymweliad hwn oedd y Siaradwr Masizole Mnqasela, gyda'r Llywydd yn croesawu'r ddirprwyaeth, yn dilyn ei hymweliad â'r Senedd Daleithiol hon yn 2019.

Roedd rhaglen yr ymweliad yn cynnwys cyfres o gyfarfodydd a chyflwyniadau a oedd yn gyfle i drafod amrywiaeth o faterion, gan gynnwys:

- Capasiti a Diwygio'r Senedd;
- Gwaith Pwyllgorau'r Senedd (gan ganolbwyntio ar ein Pwyllgor Cyllid a'n Pwyllgor Deisebau);
- Senedd Ieuenctid Cymru;
- Cymorth i Aelodau o'r Senedd.

Hyfforddiant Cennad Arsylwi Etholiad

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn mae Delyth Jewell AS ac Alun Davies AS wedi ymgymryd â hyfforddiant Cennad Arsylwi Etholiad, a drefnwyd gan Ysgrifenyddiaeth BIMR.

Gweithgor BIMR ar "Argyfwng Hinsawdd"

Mae Llyr Gruffydd AS wedi cynrychioli'r Gangen ar y gweithgor hwn sydd wedi cynnal amryw o sesiynau; gan gynnwys gweminar a gynhaliwyd gan San Steffan ar y testun *Equinor a stori Norwy*.

6. <u>Ymwelwyr â'r Senedd o'r Gymanwlad</u>.

Mae'r Gangen wedi helpu i ddatblygu rhaglenni ar gyfer ymwelwyr rhyngwladol â'r Senedd, gan gynnwys Siaradwyr, Uchel Gomisiynwyr, a dirprwyaethau a swyddogion o wledydd a seneddau'r Gymanwlad, gan gynnwys Canada. Awstralia (ffederal a thaleithiol), Pacistan, Seland Newydd a'r Western Cape (De Affrica).

7. <u>Cynllun Nawdd y Gangen</u> (parhaus).
Atgoffir yr Aelodau am y cynllun hwn, ac fe'u hanogir i chwilio am gyfleoedd i wneud cais am gefnogaeth ar gyfer ymweliadau astudio â Seneddau eraill y Gymanwlad.Dylai Aelodau sydd â diddordeb yn y cyfle hwn nodi hynny, yn y lle cyntaf, mewn neges e-bost at Al Davies, Ysgrifennydd Dros Dro'r Gangen: (al.davies@senedd.cymru) gan roi amlinelliad byr a chynllun busnes ar gyfer eu hymweliad astudio arfaethedig.

8. <u>Edrych tua'r dyfodol</u>

<u>2023</u>

- 71ain Seminar San Steffan (Mawrth)
- Cynhadledd BIMR, y DU (Ebrill)
- Cynadleddau Seneddol y Gymanwlad. Ghana. (Medi)

Tachwedd 2022